**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**GORCHYMYN TRAFFIG DROS DRO**
**(RHIWCEILIOG A4093) 2025**

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN** fod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pencoed wrth arfer ei bwerau dan Adran 14(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), heb fod yn llai na 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, yn bwriadu creu Gorchymyn a fydd yn cyflwyno'r cyfyngiad a nodir yn yr atodlen isod.

Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol am nad yw'r lôn gerbydau yn ddigon llydan i gynnal mynediad i gerbydau wrth ailosod wyneb y briffordd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 22/06/2025 a bydd yn parhau mewn grym am uchafswm o 18 mis neu nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, p'un bynnag sydd gynharaf.

Rhagwelir y bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud rhwng 08:00am ac ailagor y ffordd bob dydd am 16:00pm o 22/06/2025 tan 01/07/2025, neu hyd nes y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau hyd at uchafswm o 18 mis.

## Atodlen

Ni chaiff neb beri i unrhyw gerbyd fynd ar hyd yr A4093 Rhiwceiliog i Minffrwd Road o'r gyffordd â'r A4093 i gyfeiriad y de am bellter o tua 1.2km.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau yw drwy gyffordd Rhiwceiliog yr A4093 i'r gyffordd â Minffrwd Road, Rhiwceiliog i Fynydd y Gaer, Heol-y-felin, Cefn Carfan Lane, yr A4061 Bryncethin i Felin Ifan Ddu, yr A4061 Pentref Melin Ifan Ddu, yr A4093 Pentref Melin Ifan Ddu i Glynogwr, yr A4093 Pentref Glynogwr ac i'r gwrthwyneb.

Bydd mynediad trwy ardal y cyfyngiad i'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans wrth ymateb i argyfyngau. Caniateir mynediad i gerddwyr drwy'r amser.

Fodd bynnag, bydd y cyfyngiad ond yn berthnasol ar adegau ac i'r graddau a ddangosir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig a ragnodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Dyddiad: 05/06/2025

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer Legal & Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB